**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 1847 (Cy.197)

# DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, ynglŷn â hysbysiadau o gynlluniau i wneud gwaith diogelu'r arfordir a gyhoeddir gan awdurdodau diogelu'r arfordir o dan adran 5(1) o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 ("y Ddeddf"), a hysbysiadau o wrthwynebiad i'r fath waith a gyflwynir o dan adran 5(3) o'r Ddeddf. Maent yn disodli Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) 1950.

Mae rheoliad 3 a'r Atodlen yn rhagnodi ffurf yr hysbysiad y mae'n rhaid i'r awdurdod diogelu'r arfordir ei gyhoeddi.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir, y mae adran 5(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i Asiantaeth yr Amgylchedd ac i unrhyw fwrdd draenio mewnol perthnasol, hefyd gael ei gyflwyno i rai cyrff statudol ac i bartïon y mae eu buddiannau yn debyg o gael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynnwys a chyflwyno hysbysiadau o wrthwynebiad i gynllun o dan adran 5(3).

Mae rheoliad 6 yn awdurdodi cyflwyno hysbysiadau trwy gyfathrebiad electronig.

Mae rheoliad 7 yn diddymu, mewn perthynas â Chymru, Reoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) 1950 (sydd eisoes wedi eu diddymu mewn perthynas â Lloegr gan Reoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Lloegr) 2002).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 1847 (W.197)

# COAST PROTECTION, WALES

## The Coast Protection (Notices) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make provision, in relation to Wales, with respect to notices of proposals to carry out coast protection work published by coast protection authorities under section 5(1) of the Coast Protection Act 1949 ("the Act"), and notices of objection to such work served under section 5(3) of the Act. They replace the Coast Protection (Notices) Regulations 1950.

Regulation 3 and the Schedule prescribe the form of the notice which the coast protection authority is required to publish.

Regulation 4 requires a notice of a proposal to carry out coast protection work, which section 5(1) requires to be published and served on the Environment Agency and on any relevant internal drainage board, also to be served on certain other statutory bodies and parties whose interests are likely to be affected by the proposed work.

Regulation 5 makes provision in relation to the content and service of notices of objection to a proposal under section 5(3).

Regulation 6 authorises the service of notices by electronic communication.

Regulation 7 revokes, in relation to Wales, the Coast Protection (Notices) Regulations 1950 (which have already been revoked in relation to England by the Coast Protection (Notices) (England) Regulations 2002).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 1847 (Cy.197)

# DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *16 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | *31 Gorffennaf 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i "y Gweinidog" gan adran 5(1), (2) a (3) ac adran 44 o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949(**a**), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru(**b**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. -(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Cymru) 2003 ac maent yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol, mewn perthynas â Chymru, neu, mewn perthynas â Lloegr, cyngor sir, dosbarth neu fwrdeistref;

mae gan "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i'r term "*electronic communication*" gan adran 15(1) Deddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**c**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelu'r Arfordir 1949;

(a) 1949 p.74. Diwygiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Dŵr 1989 (p.15), adran 190(1) ac Atodlen 25, paragraff 1, a chan Reoliadau Deddf yr Amgylchedd 1995 (Diwygiadau Canlyniadol 1996 (O.S. 1996/593), rheoliad 2 ac Atodlen 1.

(b) Trosglwyddwyd pwerau "y Gweinidog" o dan adran 5 o'r Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1.

(c) 2000 p.7.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 1847 (W.197)

# COAST PROTECTION, WALES

## The Coast Protection (Notices) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *16th July 2003* |
| *Coming into force* | *31st July 2003* |

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of the powers conferred upon "the Minister" by section 5(1), (2) and (3) and section 44 of the Coast Protection Act 1949(**a**), and now exercisable by the National Assembly in relation to Wales(**b**), hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**. -(1) These Regulations may be cited as the Coast Protection (Notices) (Wales) Regulations 2003 and come into force on the 31st July 2003.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Coast Protection Act 1949;

"electronic communication" ("*cyfathrebiad electronig*") has the meaning assigned to that term in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(**c**);

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means, in relation to Wales, a county or county borough council, or, in relation to England, a county, district or borough council;

(a) 1949 c.74. Section 5(1) was amended by the Water Act 1989 (c.15), section 190(1) and Schedule 25, paragraph 1 and by the Environment Act 1995 (Consequential Amendments) Regulations 1996 (S.I. 1996/593), regulation 2 and Schedule 1.

(b) The powers of "the Minister" under section 5 of the Act were transferred to the National Assembly for Wales, so far as exercisable in relation to Wales, by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1.

(c) 2000 c.7.

ystyr "hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir" ("*notice of a proposal to carry out coast protection work*") yw hysbysiad y mae'n rhaid i awdurdod diogelu'r arfordir ei gyhoeddi o dan adran 5(1) o'r Ddeddf.

**Ffurf hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir**

**3.** Rhaid i hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir fod yn y ffurf ddwyieithog a ragnodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu mewn ffurf sydd yn sylweddol yn cael yr un effaith.

**Cyflwyno hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir**

**4**. Rhaid i gopi o hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir, yn ogystal â chael ei gyflwyno i'r cyrff a nodir yn adran 5(1) o'r Ddeddf, hefyd gael ei gyflwyno i:

(a) unrhyw awdurdod lleol y mae'n debygol y bydd ei ardal yn cael ei effeithio gan y gwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

(b) unrhyw awdurdod harbwr, awdurdod mordwyo, awdurdod gwarchodaeth, neu bwyllgor pysgodfeydd lleol y mae ei ardal yn cynnwys yr ardal lle bydd y gwaith y mae'r hysbysiad yn perthyn iddo yn cael ei wneud neu y bydd fel arall yn debyg o gael ei effeithio gan y gwaith hwnnw;

(c) Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

(ch) os yw'r gwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn debygol o effeithio ar unrhyw ran o Loegr neu o'r môr sy'n gyfagos at Loegr, "English Nature", Comisiwn Adeiladau a Henebion Lloegr a'r "Countryside Agency"; a

(d) unrhyw berson arall sydd â buddiant mewn unrhyw dir y bydd y gwaith y mae'r hysbysiad yn perthyn iddo yn cael ei wneud arno, neu sy'n debygol o gael ei effeithio gan y gwaith, oni bai nad yw'r awdurdod diogelu'r arfordir yn gwybod pwy ydyw nac yn medru yn rhesymol gadarnhau pwy ydyw.

**Hysbysiad o wrthwynebiad**

**5**. -(1) Rhaid i hysbysiad o wrthwynebiad o dan adran 5(3) o'r Ddeddf i gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir y mae hysbysiad ohono wedi'i gyhoeddi o dan adran 5(1) o'r Ddeddf fod yn ysgrifenedig a rhaid i gopïau ohono gael eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i'r awdurdod diogelu'r arfordir o fewn y cyfnod hwnnw a bennir yn yr hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adran 5(1), sef cyfnod na all fod yn llai na 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw.

"notice of a proposal to carry out coast protection work" ("*hysbysiad o gynllun i wneud gwaith diogelu'r arfordir*") means a notice which a coast protection authority is required to publish under section 5(1) of the Act.

**Form of notice of a proposal to carry out coast protection work**

**3.** A notice of a proposal to carry out coast protection work must be in the bilingual form set out in the Schedule to these Regulations or in a form substantially to the same effect.

**Service of a notice of a proposal to carry out coast protection work**

**4**. A copy of a notice of a proposal to carry out coast protection work must, as well as being served on the bodies specified in section 5(1) of the Act, be served on:

(a) any local authority whose area is likely to be affected by the work to which the notice relates;

(b) any harbour authority, navigation authority, conservancy authority, or local fisheries committee whose area includes the area where the work to which the notice relates is to be carried out or is otherwise likely to be affected by that work;

(c) the Countryside Council for Wales;

(d) if the work to which the notice relates is likely to affect any part of England or of the sea adjacent to England, English Nature, the Historic Buildings and Monuments Commission for England and the Countryside Agency; and

(e) any other person who has an interest in any land on which the work to which the notice relates is to be carried out, or which is likely to be affected by the work, unless the identity of that person is not known to, and cannot reasonably be ascertained by, the coast protection authority.

**Notice of objection**

**5**. -(1) A notice of objection under section 5(3) of the Act to a proposal to carry out coast protection work of which notice has been published under section 5(1) of the Act must be in writing and copies must be served on the National Assembly and on the coast protection authority within such period as is specified in the notice published under section 5(1), which period must not be less than 28 days after the publication of that notice.

(2) Rhaid i hysbysiad o wrthwynebiad o dan adran 5(3) ddatgan seiliau'r gwrthwynebiad.

(3) Rhaid i'r copi o'r hysbysiad o wrthwynebiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (1) gael ei gyfeirio at Is-adran Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(4) Rhaid i'r copi o'r hysbysiad o wrthwynebiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gyflwyno i'r awdurdod diogelu'r arfordir gael ei gyfeirio at Brif Weithredwr yr awdurdod hwnnw yn ei brif swyddfa.

**Defnyddio cyfathrebiad electronig**

**6**. -(1) Caiff unrhyw ddogfen y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, ei chyflwyno trwy gyfathrebiad electronig, yn ogystal â thrwy unrhyw fodd arall a awdurdodir gan y Ddeddf a dylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ysgrifen, sut bynnag y mae wedi'i fynegi, mewn perthynas â dogfen y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, fel cyfeiriad sy'n cynnwys cyfeiriad at ffurf y mae modd ei storio ar gyfrifiadur, ei throsglwyddo i gyfrifiadur ac ohono, a'i darllen drwy gyfrwng cyfrifiadur.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i:

(a) unrhyw gopi o hysbysiad o wrthwynebiad o dan adran 5(3) o'r Ddeddf; a

(b) unrhwy gopi o hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir, os yw'r person y mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad iddo yn cytuno i dderbyn cyflwyno'r ddogfen honno trwy gyfathrebiad electronig.

**Diddymu**

**7**. Diddymir, trwy hyn, Reoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) 1950(**a**) mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

16 Gorffennaf 2003

(2) A notice of objection under section 5(3) of the Act must state the grounds of the objection.

(3) The copy of the notice of objection required by paragraph (1) to be served on the National Assembly must be addressed to the Environmental Protection Division, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

(4) The copy of the notice of objection required by paragraph (1) to be served on the coast protection authority must be addressed to the Chief Executive of that authority at its principal office.

**Use of electronic communication**

**6**. -(1) Any document to which this regulation applies may, in addition to any other method of service authorised by the Act, be served by means of electronic communication and any reference in these Regulations to writing, however expressed, in relation to such a document, is to be construed as including a reference to a form capable of being stored on a computer, transmitted to and from a computer, and read by means of a computer.

(2) This regulation applies to:

(a) any copy of a notice of objection under section 5(3) of the Act; and

(b) any copy of a notice of a proposal to carry out coast protection work, if the person on whom it is required to be served agrees to accept service of that document by electronic means.

**Revocation**

**7**. The Coast Protection (Notices) Regulations 1950(**a**) are hereby revoked in relation to Wales.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

16th July 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1950/124, sydd eisoes wedi'i ddiddymu, mewn perthynas â Lloegr, gan O.S. 2002/278.

(b) 1998 p.38.

(a) S.I. 1950/124, which has already been revoked, in relation to England, by S.I. 2002/1278.

(b) 1998 c.38.

## ATODLEN

Rheoliad 3

### FFURF AR HYSBYSIAD GWAITH DIOGELU'R ARFORDIR ARFAETHEDIG

**Deddf Diogelu'r Arfordir 1949**

**Hysbysiad o Gynnig i Wneud Gwaith Diogelu'r Arfordir**

Mae Cyngor [*rhodder enw'r Cyngor*], gan weithredu fel awdurdod diogelu'r arfordir, trwy hyn yn hysbysu, o dan adran 5(1) o'r Ddeddf uchod ei fod yn cynnig gwneud gwaith diogelu'r arfordir yn [*rhodder lleoliad y gwaith*].

Bydd y gwaith yn cynnwys [*rhodder disgrifiad o'r gwaith*].

Amcangyfrifir y bydd cost y gwaith yn £[*rhodder amcangyfrif o'r gost*].

Gellir archwilio manylion y gwaith arfaethedig [ynghyd â chopïau o'r cynllun rheoli'r draethlin berthnasol]*[a mapiau o ardaloedd perygl llifogydd lleol]* yn [*rhodder cyfeiriad lle gellir archwilio a'r amserau pryd y gellir gwneud hynny*].

[* *dileer fel bo angen*]

Gall unrhyw un wrthwynebu'r gwaith arfaethedig trwy gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r Cyngor, heb fod yn hwyrach na [*rhodder dyddiad heb fod yn llai na 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad*], hysbysiad o wrthwynebiad i'r cynllun.

Rhaid i unrhyw hysbysiad o wrthwynebiad i'r cynllun ddatgan seiliau'r gwrthwynebiad a gellir ei gyflwyno trwy law, ei danfon trwy'r post, gan dalu o flaen llaw, neu ei danfon trwy ffacs neu e-bost, fel y bydd yn dod i law heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir uchod, i Is-adran Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

## SCHEDULE

Regulation 3

### FORM OF NOTICE OF PROPOSED COAST PROTECTION WORK

**Coast Protection Act 1949**

**Notice of Proposed Coast Protection Work**

The [*insert name of Council*] Council, acting in its capacity as coast protection authority, hereby gives notice under section 5(1) of the above Act that it proposes to carry out coast protection work at [*insert location of work*].

The work will consist of [*describe proposed work*].

The estimated cost of the work is £[*specify estimated cost*].

Details of the proposed work [as well as copies of the relevant shoreline management plan]*[and maps of local flood risk areas]* can be inspected at [*insert address where and times during which inspection can take place*].

[**delete as necessary*]

Any person may object to the proposed work by serving on the National Assembly for Wales and on the Council, no later than [*specify a date not less than 28 days after the date of publication of the notice*], notice of objection to the proposal.

Any notice of objection to the proposal must state the grounds of the objection and may be delivered by hand, sent by pre-paid post or sent by fax or e-mail, so as to be received no later than the date specified above, to the Environmental Protection Division, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ [*insert current fax number and e-mail address*

[*rhodder rhif ffacs a chyfeiriad e-bost cyfredol, y gellir eu cael oddi wrth Is-adran Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru]* ac i Brif Weithredwr Cyngor [*rhodder enw'r Cyngor][rhodder cyfeiriad a rhif ffacs a chyfeiriad e-bost cyfredol y Cyngor*].

*which may be obtained from the Environmental Protection Division, Welsh Assembly Government*] and to the Chief Executive of the [*insert name of Council*] Council, [*insert address, current fax number and e-mail address of the Council*].

[*Rhodder enw swyddog priodol y Cyngor*]

[*Insert name of proper officer of the Council*]

[*Rhodder dyddiad yr hysbysiad*]

[*Insert date of notice*]

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 1847 (Cy.197)

## DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU

Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 1847 (W.197)

## COAST PROTECTION, WALES

The Coast Protection (Notices) (Wales) Regulations 2003

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090763-9

9 780110 907635

**£2.00**

W148/07/03 ON